Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Carcharorion Agored i Niwed

1 Mai 2026

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys**
**Ysgrifennwyd gan: Tom Walters**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 2

**Crynodeb o'r canfyddiadau** ........ 4

**Sylwadau'r panel** ........ 7

**Atodiad – Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion dalfa** ........ 24

- Demograffeg ........ 24
- Dalfeydd ........ 25
- Amser cyrraedd y ddalfa ........ 25
- Darpariaethau yn y ddalfa ........ 28
- Unigolion benywaidd yn y ddalfa ........ 30
- Hylendid ........ 31
- Hawliau a hawlogaethau ........ 32
- Lefel arsylwi ........ 35
- Gwasanaethau cymorth ........ 37
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ........ 38
- Defnyddio grym ........ 39
- Noeth-chwiliad ........ 40
- Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd ........ 41
- Plant yn y ddalfa ........ 42
- Statws Coch Melyn Gwyrdd ........ 44

# Cyflwyniad

Mae tarddiad, pwrpas a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan ac yn benodol o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys

Ym mis Mai 2026, canolbwyntiodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar garcharorion agored i niwed. Wrth baratoi ar gyfer y gweithgaredd craffu hwn, atgoffwyd y panel o'r *Crynodeb o'r canfyddiadau* o adroddiad y llynedd, y gellir ei weld yma.

Mae rheoli carcharorion agored i niwed yn nalfeydd yr heddlu yn parhau i fod yn faes ffocws yn genedlaethol. Mae hyn wedi'i hen sefydlu a'i gefnogi drwy ddeddfwriaeth, fframweithiau arolygu, canllawiau proffesiynol a chraffu annibynnol. Y disgwyliad yw y bydd heddluoedd yn nodi unigolion agored i niwed cyn gynted â phosibl, yn diogelu hawliau a lles unigolion a gedwir yn y ddalfa, ac yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin ag urddas ac yn drugarog yn y ddalfa. Rhoddir pwyslais arbennig ar blant ac oedolion ag anghenion iechyd meddwl, anawsterau cyfathrebu, neu ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed.

Cydnabyddir yn eang bod nifer anghymesur o unigolion a gedwir yn y ddalfa ag afiechyd meddwl, anawsterau dysgu, neu anghenion yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn niwroamrywiol. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan feddwdod o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau. Mae pryder cenedlaethol parhaus ynghylch defnyddio dalfeydd yr heddlu mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth sy'n seiliedig ar iechyd neu lwybrau dargyfeirio yn fwy priodol, yn unol â dull "Y Gofal Cywir, Yr Unigolyn Cywir", fel y'i hamlygwyd gan y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC – Mental health and custody).
Mae cyrff arolygu a goruchwylio cenedlaethol, gan gynnwys Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS) a'r Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), wedi parhau i nodi anghysondebau yn y ffordd y caiff risg ei hasesu a'i rheoli yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys asesiadau risg cychwynnol a'r ffordd y caiff unigolion a gedwir yn y ddalfa eu

monitro yn barhaus, yn enwedig pan fydd cyflwr unigolyn yn dirywio yn ystod y cyfnod yn y ddalfa. Mae'r problemau cyffredin a nodwyd yn cynnwys lefelau arsylwi amhriodol, gwiriadau celloedd o ansawdd gwael, a gorddibyniaeth ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn datgelu risgiau i'w hunan, fel y nodir yn adroddiadau dysgu'r IOPC (IOPC – Learning the Lessons – Rhifyn 42).

Mae plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn faes pryder allweddol. Mae adolygiadau cenedlaethol yn gyson yn nodi bod dalfeydd yr heddlu yn amgylchedd anaddas i blant, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad blaenorol o drawma neu o fod mewn gofal. Mae pryderon parhaus yn cynnwys plant yn cael eu cadw yn y ddalfa am gyfnodau estynedig, oedi wrth sicrhau oedolyn priodol, a defnyddio dalfeydd mewn amgylchiadau pan ddylent fod yn ddewis olaf, fel y'i hamlygwyd yn adroddiad y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar gyfer Plant yn y Ddalfa (APPG – Crynodeb Gweithredol: Making Children's Rights a Reality in Police Custody).

Diben y craffu hwn yw adolygu sut mae unigolion agored i niwed yn cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli o fewn dalfeydd yr heddlu, a rhoi sicrwydd bod cadw unigolion agored i niwed yn nalfeydd yn angenrheidiol ac yn gymesur, a'u bod yn cael eu cadw yn nalfeydd yn unol â'r safonau disgwyliedig.
Cynhaliwyd y gwaith craffu hwn drwy broses hapsamplu o gofnodion dalfeydd a ddarparwyd gan yr heddlu. Dewiswyd cyfanswm o 30 achos, yn cynnwys 15 achos yn ymwneud ag oedolion a 15 achos yn ymwneud â phlant. Dewiswyd yr achosion i roi trosolwg o'r arferion cyfredol mewn perthynas ag unigolion agored i niwed yn y ddalfa ac i nodi meysydd o arferion da a chyfleoedd i wella.

Bwriad canfyddiadau'r adolygiad hwn yw cefnogi tryloywder, nodi gwersi, a chyfrannu at welliant parhaus yn y ffordd y mae'r heddlu yn rheoli unigolion agored i niwed yn y ddalfa. Dyma enghraifft o'r set o gwestiynau y gofynnwyd i'r panel eu hystyried:

**Cod QR:** **Dolen:** Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa (1 Mai 2026): Carcharorion Agored i Niwed – Llenwch y ffurflen

# Crynodeb o'r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau'r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

### Hawliau a hawlogaethau

- Rhoddwyd hawliau i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, naill ai wrth gofrestru pan wnaethant gyrraedd y ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

### Oedolyn priodol

- Yr amser ar gyfartaledd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 46 munud, a'r amser ar gyfartaledd i'r unigolyn yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 1 awr a 26 munud.
- Roedd y rhan fwyaf o achosion o oedi wedi'u cyfiawnhau gan ffactorau cyd-destunol, gan gynnwys:
  - Meddwdod
  - Amodau y tu allan i oriau gwaith arferol
  - Argaeledd teuluoedd
  - Presenoldeb wedi'i drefnu ymlaen llaw

### Cyfanswm yr amser y cadwyd unigolyn yn y ddalfa

- Yr amser ar gyfartaledd y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 9 awr.
- Yr amser ar gyfartaledd y cadwyd unigolyn ifanc yn y ddalfa oedd 6 awr ac 17 munud.

### Defnyddio grym

- Ym mhob un o'r tri achos lle nododd y panel ddefnydd o rym yn y ddalfa, fe wnaethant farnu bod y defnydd yn angenrheidiol ac yn gymesur, a bod y sail resymegol yn ddigonol. Ni chafodd unrhyw aelod o staff na'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa anafiadau.

### Gwasanaethau cymorth

- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 56% o unigolion a gadwyd yn y ddalfa; ni chynigiwyd gwasanaethau i 25% ohonynt; nid oedd gwasanaethau o’r fath yn berthnasol i 19% ohonynt.
- Mae Gwasanaethau’r Ddalfa yn ystyried bod hyn yn lefel dderbyniol a digonol o ddarpariaeth.
- Mae atgyfeiriadau a’r gwasanaeth cyfeirio yn cael eu **monitro'n fisol** ac yn dangos defnydd cyson.

**Pennu swyddog benywaidd**

- Neilltuwyd swyddog benywaidd i bob fenyw a gadwyd yn y ddalfa a chofnodwyd y rhain yn gywir.

## Meysydd i’w gwella:

**Bylchau o ran cofnodi gwybodaeth**

- Nid yw picseleiddio toiledau, cloch alw celloedd nac eitemau crefyddol yn cael eu cofnodi'n rheolaidd ar gofnodion y ddalfa.
- Dim ond 19% o gofnodion a ddogfennodd fod unigolion a gadwyd yn y ddalfa wedi cael gwybod bod toiledau’n cael eu picseleiddio; fodd bynnag, mae hyn wedi'i stensilio ar waliau'r celloedd er gwybodaeth i'r carcharorion. Er bod Gwasanaethau’r Ddalfa hefyd yn hyderus bod hyn yn cael ei gyfleu i garcharorion ar lafar, mae lefelau cydymffurfio gwael mewn perthynas â chofnodion yn parhau.
- Gobeithir y bydd hyn yn newid gyda datblygiad ap symudol i swyddogion y ddalfa a fydd yn helpu gyda’r canlynol:
  - Gwella recordio amser real
  - Cyflwyno awgrymiadau ar gyfer yr wybodaeth ofynnol
  - Cynyddu cysondeb a hwyluso gwaith archwilio

**Eitemau tynnu sylw**

- Nid oes templed asesu risg annibynnol yn bodoli ar gyfer eitemau tynnu sylw.
- Er i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa dderbyn eitem tynnu sylw a oedd yn cael ei hystyried yn addas yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y cynllun gofal, o ystyried y risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig ag eitemau gwahanol, efallai y bydd yr heddlu’n ystyried gwella eglurder a gwelededd yr asesiad risg hwnnw. Mae canllawiau cyfredol yn cael eu hystyried ar gyfer defnyddio cyfrifiaduron llechen yn y ddalfa ynghylch cywirdeb cofnodi ac asesu risg. A yw hyn yn berthnasol i eitemau eraill hefyd?

**Cynrychiolaeth gyfreithiol**

- Mae cofnodion o bresenoldeb cyfreithwyr mewn cyfweliadau ond mae bylchau yn yr amseroedd cyrraedd neu ymgynghoriadau. Deellir nad yw cronfa ddata gyfrifiadurol yr heddlu, a elwir yn Niche, yn gofyn i staff y ddalfa am y cofnodion hyn.

### Gweithdrefnau yn ymwneud â noeth-chwiliadau

- Cofnodion anghyson ynghylch a gafodd unigolion a gadwyd yn y ddalfa wybod am statws teledu cylch cyfyng.

### Plant yn y ddalfa (Llais y Plentyn ac Eiliadau Cyraeddadwy)

- Rhai bylchau wrth gofnodi Eiliadau Cyraeddadwy a Llais y Plentyn yn gywir ar y rhestr wirio ar gyfer plant gan staff y ddalfa. Mae bylchau hefyd wedi bod pan nad yw Llais y Plentyn wedi'i gofnodi o gwbl, er gwaethaf y ffaith bod hyn yn ofyniad.
- Anawsterau sy'n gysylltiedig â staffio mewn perthynas â gweithwyr Eiliadau Cyraeddadwy, sy'n golygu nad ydynt wedi bod ar gael i bob plentyn sydd wedi'i gadw yn y ddalfa; fodd bynnag, mae disgwyl y bydd cynnydd yn nifer y gweithwyr yn y dyfodol agos.
- Oherwydd ardal ddaearyddol Heddlu Dyfed–Powys, cytunwyd na fydd plentyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa am hyd at dair awr yn gweld gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy, oherwydd bydd teithio a'r cyfle cyfyngedig i gael ymgysylltiad ystyrlon yn rhy heriol yn ystod cyfnod byr yn y ddalfa.
- Roedd un achos o adolygiad arolygydd plentyn yn y ddalfa a oedd ar goll, sy'n cynnwys adolygiad arolygydd plentyn dwy awr ac adolygiad arolygydd Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 chwe awr.

# Sylwadau’r panel

Cynhyrchwyd sylwadau’r heddlu gan arolygydd Gwasanaethau’r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed–Powys.

| Thema | Sylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau cymorth** | O ystyried bod 56% o unigolion a gadwyd yn y ddalfa wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth, o'i gymharu â 25% nad oeddent wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth ac 19% lle nad oedd hyn yn berthnasol, a ydych chi'n fodlon â'r lefel hon o ddarpariaeth, yn enwedig o ystyried y ffocws thematig ar garcharorion agored i niwed? | *Ydw, mae hyn yn ddatganiad digonol o ran y gwasanaethau cymorth a gynigir. Caiff data ynghylch cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth ei fonitro’n fisol o fewn cyfarfod perfformiad y contract meddygol a gall data amrywio o fis i fis. Mae'r data hwn yn dangos amlder uchel o gyfeirio ac atgyfeiriadau ar draws pob categori o unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Rhaid ystyried y bydd graddau bod yn agored i niwed yn benodol i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa ac felly ni fydd angen gwasanaethau cymorth ar bob carcharor “agored i niwed” ar ôl cael eu cadw yn y ddalfa. Newidyn arall i'w ystyried yw y gallai unigolyn a gedwir yn y ddalfa fod eisoes yn cael cymorth gan asiantaeth bartner sy'n berthnasol i'w anghenion, ac felly nid oes angen cyfeirio ac atgyfeirio pellach ar yr achlysuron hyn.* |
| **Eitem tynnu sylw** | Nododd u panel absenoldeb asesiad risg ar gyfer pob un o'r pedwar cofnod a gofnododd eitemau tynnu sylw yn cael eu darparu i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. A ellir gwirio hyn ac a | *Rwy'n amau bod fy esboniad o asesu risgiau eitemau tynnu sylw wedi'i gamddehongli, sy'n gamgymeriad ar fy rhan i. Nid yw Gwasanaethau'r Ddalfa wedi creu asesiad risg penodol ar gyfer eitemau tynnu sylw, ond* |

| | | |
|---|---|---|
| | allwch chi nodi a oes unrhyw ddysgu y gellir ei briodoli i hyn? | *gellir asesu addasrwydd eitemau sy'n cael eu darparu i unigolion a gedwir yn y ddalfa drwy asesiadau risg a gellir creu cynlluniau gofal.*<br><br>*Ym mhob un o'r pedwar cofnod dalfa a amlygwyd, roedd pob carcharor yn addas i gael eitemau tynnu sylw yn seiliedig ar yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddog y ddalfa yn y cynlluniau gofal a grëwyd.*<br><br>*Mewn perthynas â'r cyfrifiaduron llechen Samsung A9 a gyflwynwyd yn ddiweddar, lluniodd Gwasanaethau'r Ddalfa ddogfen ganllaw yn ddiweddar a'i dosbarthu ynghylch eu defnydd yn y ddalfa. Dolen ynghlwm wrth y ddogfen er tryloywder: Canllawiau ar gyfer cyfrifiadur llechen sy'n tynnu sylw. Mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn ystyried cyflwyno templedi penodol i'w cwblhau ynghylch darparu cyfrifiaduron llechen tynnu sylw er mwyn gwella cydymffurfedd a chywirdeb gwaith cofnodi ac asesu risg.*<br><br>*RHAID i swyddog y ddalfa gynnal asesiad risg wrth ddarparu unrhyw eitem sy'n tynnu sylw ar bob achlysur. Ni ddylid rhoi eitemau i unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa sy'n feddw, sy'n dreisgar neu'n ymosodol, y mae pryderon presennol ynghylch* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *hunan-niweidio mewn perthynas ag ef, neu os oes unrhyw reswm arall / rhesymau eraill a allai atal eu rhoi dros dro.* |
| **Pennu swyddog benywaidd** | Nododd aelod o'r panel nad oedd swyddog benywaidd wedi'i dyrannu ar gyfer y fenyw ifanc a gadwyd yn y ddalfa. A ellir gwirio hyn a rhoi eglurder? | *Mae cofnod y ddalfa wedi'i wirio, a chafodd swyddog benywaidd ei dyrannu a'i dogfennu o fewn yr holl gynlluniau gofal ar gofnod y ddalfa. Mae'r cynllun gofal cyntaf a gwblhawyd am 7.47pm yn tystio i hyn. Defnyddiwyd yr un swyddog benywaidd drwy gydol cyfnod y fenyw yn y ddalfa gan mai dim ond am gyfnod byr yr oedd yr unigolyn yn y ddalfa ac ni newidiwyd unrhyw staff y ddalfa.* |
| **Cynrychiolaeth gyfreithiol** | 1) Roedd gan aelod o'r panel anhawster wrth ganfod a wnaeth unigolyn a gadwyd yn y ddalfa weld neu siarad â chyfreithiwr er gwaetha'r ffaith ei fod wedi gofyn am un. A allwch chi roi sicrwydd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael cynnig cynrychiolydd cyfreithiol a'i fod wedi cwrdd â'r cynrychiolydd hwnnw?<br>2) Mae aelod arall o'r panel wedi gofyn y cwestiwn pam y bu oedi o bedair awr wrth gysylltu â | *1. Gwiriwyd cofnod y ddalfa ac mae crynodeb y cyfweliad yn tynnu sylw at bresenoldeb cyfreithiwr. Fodd bynnag, nid oes cofnod cadw yn y ddalfa yn tynnu sylw at amser cyrraedd y cyfreithiwr yn y ddalfa ac nid oes unrhyw drosglwyddiad i ymgynghoriad â chyfreithiwr. Bydd adborth yn cael ei roi i'r swyddog dalfa dan sylw.*<br>*2) Efallai fod y cofnod dalfa hwn wedi peri anawster i aelod y panel asesu* |

| | | |
|---|---|---|
| | chyfreithiwr ar ôl iddo nodi ei fod yn gofyn am un?<br>3) Ni allai cofnod pellach ganfod a oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi siarad â'r cyfreithiwr. A oes bwlch yn y cofnod mewn perthynas â dyfodiad cynrychiolydd cyfreithiol? | *amserlen y digwyddiadau gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei arestio a'i ryddhau ar fechnïaeth stryd sawl diwrnod ynghynt ac yna wedi ateb y fechnïaeth, gan arwain at greu'r cofnod dalfa hwn. Oherwydd hyn, roedd presenoldeb cyfreithiwr wedi'i drefnu ymlaen llaw ac mae cofnod cadw yn y ddalfa am 4.59pm yn tynnu sylw at y ffaith bod y cyfreithiwr wedi cyrraedd yr orsaf cyn yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a'i fod wedi'i osod yn ystafell y cyfreithiwr yn aros am ddatgeliad gan swyddogion. Mae cofnodion pellach yn nodi bod swyddogion wedi darparu datgeliad i'r cyfreithiwr, bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei drosglwyddo i ystafell y cyfreithiwr ar gyfer ymgynghoriad, a bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei drosglwyddo i gyfweliad, gyda chyfreithiwr yn bresennol hefyd. Felly, nid oedd oedi o bedair awr. Hefyd, dim ond am gyfanswm o 2 awr ac 16 munud y cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gadw, felly ni fyddai oedi o bedair awr yn bosibl.*<br>*3) Gwiriwyd cofnod y ddalfa, a gallaf gadarnhau sylw aelodau'r panel nad oes unrhyw gofnodion yn nyddlyfr y ddalfa yn tynnu sylw at amser cyrraedd y cyfreithiwr, trosglwyddiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i ystafell y cyfreithiwr ar gyfer ymgynghoriad, ac ati. Bydd adborth yn cael ei roi i'r swyddog dalfa dan sylw.*<br><br>*Mae cofnodion dalfa 1 a 3 yn tynnu sylw at broblem barhaus yn ymwneud â chofnodi amser cyrraedd y cyfreithiwr a throsglwyddo unigolion a gedwir yn y ddalfa i ystafell y cyfreithiwr er mwyn ymgynghori â nhw. Er bod cydymffurfedd yn y maes hwn wedi gwella, mae bylchau o hyd o ran cofnodi. Nid yw Niche yn darparu awgrymiadau ynghylch y cofnodion hyn ac felly mae'n dibynnu ar swyddogion y ddalfa i gofio cwblhau'r cofnodion hyn. Bydd Gwasanaethau'r Ddalfa yn trafod hyn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ag arolygwyr dalfa'r uned reoli sylfaenol ac yn gofyn i'w staff arwain y maes hwn.* |
| **Gwiriadau er mwyn deffro carcharorion** | Ni allai aelod o'r panel nodi a oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar Lefel 2 wedi cael gwiriadau deffro. | *Gwiriwyd cofnod y ddalfa, ac roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar arsylwadau L2 o'r adeg y cyrhaeddodd ef â'r ddalfa am 5.54am nes i'r lefel arsylwi gael ei newid i L1 30 am 8.42am. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cwblhawyd a chofnodwyd saith gwiriad lles ar gyfer y carcharor. Yn ystod tri o'r gwiriadau hyn, mae'r cofnodion yn nodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn effro a bod rhywun wedi siarad ag ef, ac ar y pedwar achlysur arall mae'r cofnodion yn tynnu sylw at y ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei ddeffro a bod rhywun wedi siarad ag ef.*<br><br>*Yn ddiweddar, mae Gwasanaethau'r Ddalfa wedi creu dogfen ganllaw ynghylch lefelau arsylwi i sicrhau bod pob cam gweithredu yn cael ei gwblhau a'i ddogfennu gan staff y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwiriadau arsylwi L2 yn cydymffurfio â'r canlynol (y pedwar 'R' yn Saesneg): Deffro, Ymateb i gwestiynau, Ymateb i orchmynion, Cofnodi), a bod arsylwadau cyson L3 ac L4 yn cael eu cynnal yn y modd cywir. Mae'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu / ei chymeradwyo ar hyn o* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *bryd ac nid yw wedi'i dosbarthu i staff y ddalfa eto.*<br>*Dogfen wedi'i hatodi er tryloywder: Dogfen Ganllaw Lefelau Arsylwi yn y Ddalfa.* |
| **Noeth-chwiliad** | Yn y naill gofnod na'r llall a adolygwyd, pan gynhaliwyd noeth-chwiliad, ni allai'r naill aelod o’r panel neu’r llall nodi a roddwyd gwybod i’r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa bod y camerâu cylch cyfyng wedi'u gorchuddio neu wedi'u diffodd at ddibenion y chwiliad. | *Gwiriwyd dau gofnod y ddalfa:*<br>*Nid oes cofnod cysylltiedig â'r cofnod cadw cyntaf i nodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael gwybod bod y teledu cylch cyfyng wedi'i orchuddio neu wedi'i ddiffodd.*<br>*Digwyddodd yr ail yn Nafen, sef yr unig ddalfa sydd ag ystafell chwilio bwrpasol heb gamera cylch cyfyng wedi'i osod, ac felly nid oes angen rhoi gwybod i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa bod camerâu cylch cyfyng wedi'u gorchuddio rhag y golwg.*<br><br>*Mae'r elfen ychwanegol hon i noeth-chwiliadau yn y ddalfa, a’i chofnodi, yn parhau i gyflwyno cydymffurfedd ysbeidiol rhwng swyddogion y ddalfa. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ysgogiad ar gyfer y weithred hon ac nid yw Niche yn cynnwys teledu cylch cyfyng o fewn y templed awdurdod noeth-chwiliad. Ystyrir cyflwyno cais am newid i Niche er mwyn i hyn gael ei gynnwys.* |
| **Oedolyn priodol** | Roedd pum cofnod pan na allai’r panel nodi sail resymegol dros yr oedi cyn i oedolyn priodol gyrraedd y ddalfa. A ydych chi'n gallu rhoi unrhyw gyd-destun i hyn? | *Gwiriwyd holl gofnodion y ddalfa:*<br><br>*Cyrhaeddodd y carcharor cyntaf y ddalfa am 6.09am ac roedd yn feddw. Ni newidiwyd y lefelau arsylwi tan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *bedair awr yn ddiweddarach, am 11.09am, yna cwblhawyd hawliau a hawlogaethau pan oedd yn sobr, a rhoddwyd gwybod i'r oedolyn priodol am 11.09am gyda'r cais wedi'i wneud i Adferiad (darparwr oedolyn priodol). Yna ni chyrhaeddodd yr oedolyn priodol tan 3.07pm.  Ni allaf egluro a oedd yr amser cyrraedd sawl awr yn hwyrach oherwydd argaeledd oedolyn priodol neu a oedd y cais wedi'i drefnu ar gyfer yr amser hwnnw.*<br><br>*Efallai, fel y'i hamlygwyd mewn arsylwad blaenorol, yr oedd yn anodd i aelod y panel ganfod amserlen y digwyddiadau yn ail gofnod y ddalfa gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn destun mechnïaeth stryd. Oherwydd hyn, cafodd y cyfreithiwr a'r oedolyn priodol eu trefnu ymlaen llaw ar gyfer amser dychwelyd mechnïaeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, a gwnaeth y ddau gyrraedd y ddalfa cyn yr unigolyn a gadwyd. Mae hyn i'w weld yn nyddlyfr y ddalfa a'r hawliau a'r hawlogaethau pan fo'r oedolyn priodol wedi'i ddogfennu fel un o'r tîm troseddwyr ifanc a'r amser cyrraedd wedi'i ddogfennu fel yr un amser ag y crëwyd cofnod y ddalfa. Nid oedd unrhyw oedi o ran yr oedolyn priodol yn cyrraedd ar y cofnod hwn.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Yn y trydydd cofnod, cyrhaeddodd y carcharor y ddalfa am 8.34pm. Cymerodd y weithdrefn gofrestru dros awr, oherwydd ymarweddiad y carcharor a'r ffaith ei fod yn gwrthod cydweithredu gyda'r asesiad risg, a chwblhawyd y cynllun gofal cyntaf am 9.42pm. Yn ystod yr amser hwn, roedd staff y ddalfa mewn sgwrs â mam y carcharor i'w hysbysu am ei arestiad ac i ofyn a oedd hi ar gael i fynd i'r ddalfa i weithredu fel oedolyn priodol. Mae hyn wedi'i ddogfennu am 10.07pm, yn ogystal â gwrthodiad y fam i fynd i'r ddalfa i weithredu fel oedolyn priodol. Gan fod y digwyddiad hwn yn y ddalfa y tu allan i oriau gwaith, bu'n rhaid cysylltu â'r tîm dyletswydd argyfwng (gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau gwaith arferol) i ofyn am bresenoldeb y gwasanaethau cymdeithasol i weithredu fel oedolyn priodol, a gwnaed y cais hwn am 10.45pm. Yna cyrhaeddodd y gweithiwr cymdeithasol y ddalfa 30 munud yn ddiweddarach am 11.15pm. Felly, cyrhaeddodd yr oedolyn priodol y ddalfa 2 awr 41 munud ar ôl i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gyrraedd. Ni fyddwn yn ystyried hyn yn oedi, yn enwedig o ystyried y cyd-destun a ddarparwyd uchod a'r camau gweithredu a gwblhawyd gan staff y ddalfa.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *O ran y pedwerydd cofnod, cyrhaeddodd y carcharor y ddalfa am 6.10am ac roedd angen cyfnod o orffwys arno oherwydd ei fod wedi bod yn effro drwy gydol y nos. Mae hyn wedi'i ddogfennu yn y cynllun gofal ac mae tystiolaeth ohono yng ngwiriadau lles yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, sy'n dangos iddo gysgu am sawl awr. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymdrechion i roi gwybod i fam yr unigolyn a gadwyd am ei arestio ond, oherwydd yr amser o'r dydd, ni chysylltwyd â'r fam tan 7.42am. Yna cysylltwyd â mam yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a gofynnwyd iddi fynychu'r ddalfa am 10.40am, pan ddeffrodd yr unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, ni chyrhaeddodd y fam tan 12.15pm.*<br><br>*O ran y pumed cofnod, nid oes oedi cyn i oedolyn priodol gyrraedd. Cyrhaeddodd y carcharor y ddalfa am 8.58am. Rhoddwyd gwybod i dad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ac fe gyrhaeddodd y ddalfa am 9.22am, 24 munud ar ôl i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gyrraedd.* |
| **Plant yn y ddalfa** | 1. Roedd un achos pan na chwblhawyd Eiliadau Cyraeddadwy ar y sail nad oedd gweithwyr ieuenctid ar gael. A | *1. Yn anffodus, mae adnoddau Adferiad ar gyfer ceisiadau am weithwyr Eiliadau Cyraeddadwy wedi bod ychydig yn ysbeidiol yn ystod y* |

| | | |
|---|---|---|
| | yw hyn yn gywir? Os felly, a oes unrhyw sicrwydd na fydd hyn yn broblem barhaus i bobl ifanc yn y ddalfa?<br>2. Roedd dau achos pan na chwblhawyd Eiliadau Cyraeddadwy yn seiliedig ar ba mor hir y cadwyd y plentyn yn y ddalfa. A ellir cyfiawnhau hyn? Yn yr un cofnod, ni chwblhaodd y staff Llais y Plentyn ar y sail bod y plentyn yn aros i weld swyddog yr achos a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. A allwch chi egluro a ddylai pob plentyn sydd wedi cael ei gyfnod yn y ddalfa wedi'i awdurdodi ddisgwyl i Lais y Plentyn ac Eiliadau Cyraeddadwy gael eu cofnodi ar ei gyfer?<br>3. Nododd dau gofnod nad oedd Llais y Plentyn wedi'i gwblhau heb unrhyw reswm penodol ac ni chwblhawyd Llais y Plentyn pellach ar y sail bod angen i'r plentyn weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. | *misoedd diwethaf. Gellir priodoli hyn i nifer y gweithwyr Eiliadau Cyraeddadwy sy'n cael eu cyflogi / ar gael yn ogystal â'r cynnydd diweddar yn nifer y plant yn y ddalfa ac felly'r galw cynyddol am weithwyr Eiliadau Cyraeddadwy. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn parhau i weithio'n agos gydag Adferiad ynghylch y cynllun peilot hwn ac yn monitro ceisiadau yn erbyn presenoldeb mewn cyfarfodydd perfformiad misol. Gellir rhoi sicrwydd bod tri gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy ychwanegol wedi cwblhau eu hyfforddiant ar ddechrau mis Mai a bydd saith arall yn cwblhau eu hyfforddiant heddiw (27 Mai). Bydd y cynnydd hwn o ddeg gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy ychwanegol i'r garfan sydd eisoes ar gael yn cynorthwyo i gadw ceisiadau a fethir i'r lleiafswm.*<br><br>*2. Mewn perthynas ag Eiliadau Cyraeddadwy sydd heb eu cwblhau oherwydd hyd y cyfnod yn y ddalfa, nid wyf yn glir a yw hyn mewn perthynas â phresenoldeb y gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy neu'r adran Eiliadau Cyraeddadwy o'r rhestr wirio ar gyfer plant mewn gofal. Felly, byddaf yn egluro'r ddau faes. O ran presenoldeb gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy, mae Gwasanaethau'r* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Ddalfa wedi cytuno, os mai dim ond am ddwy i dair awr y mae'n debygol y bydd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei gadw, nid oes angen gwneud cais am bresenoldeb gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy. Gwnaed y penderfyniad hwn gan, o ystyried camau'r ddalfa y mae angen eu cwblhau (cyfweliad, prosesu ac ati), yr amser i ofyn am weithiwr Eiliadau Cyraeddadwy a'i ddyrannu, a daearyddiaeth yr heddlu, sy'n golygu bod amser teithio sylweddol yn debygol iawn, yna ni fydd ymgysylltiad ystyrlon rhwng y plentyn a'r gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy yn bosibl pan gedwir unigolyn yn y ddalfa am amser byr.  Ni all y ddalfa barhau i gadw, na gohirio rhyddhau, dim ond er mwyn i weithiwr Eiliadau Cyraeddadwy gael bod yn bresennol. Roedd hyn yn wir am y ddau gofnod dalfa a amlygwyd pan oedd y cyfnodau yn y ddalfa yn fyr.*<br><br>*O ran cwblhau Llais y Plentyn ac Eiliadau Cyraeddadwy, dylid cwblhau Llais y Plentyn ar bob rhestr wirio plentyn a gwblheir.  Mae hyn i staff y ddalfa ddogfennu eu barn/safbwyntiau yn dilyn eu hymgysylltiad â'r plentyn. Y cafeat o ran hyn yw mai dim ond tri o egwyddorion AWARE y gellir eu cwblhau yn y ddalfa, sef ymddangosiad (Appearance), geiriau* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *(Words) a gweithgarwch (Activity). Ni ellir cwblhau'r ddwy egwyddor sy'n weddill, sef perthnasoedd (Relationships) a'r amgylchedd (Environment), yn y ddalfa gan eu bod wedi'u hanelu at fynychu galwadau cychwynnol, a mynychu cyfeiriadau, lle gellir asesu perthnasoedd y plentyn â'r rhai sy'n bresennol a'r amgylchedd (glanweithdra'r cartref, bwyd sydd ar gael ac ati).*<br><br>*Cyflwynwyd y Prosiect Eiliadau Cyraeddadwy gan ei fod yn cael ei gytuno'n genedlaethol na ddylai swyddogion heddlu fod yn cwblhau'r weithred hon gan nad oes gan swyddogion heddlu'r hyfforddiant na'r profiad perthnasol i ymgysylltu'n llwyddiannus â phlant at y diben hwn. Felly, dylai gael ei gwblhau gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig sydd â phrofiad o weithio gyda phlant mewn rôl gefnogol. Fodd bynnag, os nad yw presenoldeb gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy yn bosibl, dylai swyddogion y ddalfa gwblhau'r adran hon o'r rhestr wirio ar gyfer plant o hyd, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ganddynt.*<br><br>*Darperir adborth mewn perthynas â'r mater hwn.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *3. Dylid cwblhau Llais y Plentyn bob amser ar bob rhestr wirio ar gyfer plant fel yr amlygwyd yn yr ymateb i bwynt 2.* |
| **Statws Coch Melyn Gwyrdd – Coch** | Dywedodd aelod o’r panel nad oedd gan y cofnod y gwnaeth ei oruchwylio adolygiadau arolygwyr nac ychwaith rhingyll gweithredol (heb fod yn y ddalfa) yn adolygu'r arestiad. A allwch chi roi gwybod a yw hyn yn wir? Os felly, a oes unrhyw ddysgu y gellir ei gael o'r cofnod cadw hwn? | *Mae cofnod y ddalfa wedi'i wirio, a gallaf gadarnhau bod arsylwad aelodau'r panel ynghylch adolygiadau arolygwyr ychwanegol yn gywir. O fewn y cofnod dalfa hwn, dylai adolygiad yr arolygydd ychwanegol ar gyfer plant yn yr ail awr fod wedi'i gwblhau. Yn ogystal, ni chwblhawyd adolygiad arolygydd chwe awr chwaith o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Bydd adborth yn cael ei roi i staff y ddalfa a'r arolygydd ar ddyletswydd.*<br><br>*O ran rhingyll gweithredol (heb fod yn y ddalfa) yn adolygu'r arestiad, ni chytunwyd erioed i hyn gael ei ddogfennu o fewn cofnod y ddalfa ac fe'i cyflwynwyd i sicrhau craffu cynnar ar arestiadau plant er mwyn ystyried opsiynau eraill heblaw am y ddalfa. Digwyddodd y weithred hon y tu allan i'r ddalfa ac nid oedd erioed ofyniad i hyn gael ei ddogfennu ar y cofnod gan y rhingyll gweithredol na swyddog y ddalfa. Fodd bynnag, bydd y broses hon o ringylliaid gweithredol yn adolygu arestiadau plant yn cael ei diwygio'n fuan yn dilyn gwerthusiad. Mae prif swyddogion wedi cytuno y bydd y broses hon bellach yn cael ei* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *chwblhau o fewn y trefniant brysbennu cyn-ddalfa newydd. Bydd swyddogion arestio yn cwblhau'r brysbennu cyn-ddalfa, trwy dempled, ac mae ganddo nifer o feysydd risg i'w hystyried sydd â Statws Coch Melyn Gwyrdd. Mae plant wedi cael eu rhoi yn adran 'Melyn' y Statws Coch Melyn Gwyrdd, sy'n golygu y bydd hyn yn gorchymyn sgwrs rhwng y swyddog sy'n arestio a swyddog y ddalfa cyn iddynt deithio i'r ddalfa. Yna bydd swyddog y ddalfa yn cynnal trafodaeth â'r swyddog arestio i sicrhau bod pob opsiwn amgen wedi'i archwilio a'i bod yn angenrheidiol ac yn gymesur cludo'r plentyn i'r ddalfa.* |
| **Picseleiddio toiledau** | O ystyried y newyddion cenedlaethol am sgandal picseleiddio toiledau mewn perthynas â heddlu yn Lloegr, dim ond 19% o'r cofnodion a adolygwyd y mae'r panel wedi'u nodi a gofnododd fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael gwybod bod ardal y toiled yn y gell wedi'i phicseleiddio. A allwch chi roi gwybod a yw hwn yn faes y mae'r heddlu'n bwriadu ei wella wrth symud ymlaen? | *Mae hwn yn bwnc sydd wedi cael ei drafod yn fanwl o'r blaen. Er y gallai'r sylw diweddar yn y cyfryngau beri pryder, rwy'n hyderus bod swyddogion dalfa a thywys yn rhoi gwybod i unigolion a gedwir yn y ddalfa yn weithredol am picseleiddio toiledau, ynghyd â meysydd eraill megis seinwyr yn y celloedd, teledu cylch cyfyng ac ati wrth osod unigolion a gedwir yn y ddalfa mewn celloedd. Mae gan bob cell, ym mhob ystafell Heddlu Dyfed–Powys, stensiliau uwchben y toiledau hefyd yn rhoi gwybod i unigolion a gedwir yn y ddalfa bod ardal y toiled wedi'i phicseleiddio.* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *Fodd bynnag, er mwyn rhoi sicrwydd, mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn parhau i archwilio ap swyddogion dalfa a fydd yn cael ei ddefnyddio ar derfynellau data symudol y ddalfa i'w defnyddio gan swyddogion dalfa a thywys. Bydd y terfynellau data symudol a'r ap yn caniatáu i swyddogion dalfa a thywys gwblhau gweithredoedd wrth symud, gan ddileu oedi wrth wneud cofnodion, a gwella cywirdeb gwybodaeth a'r ffordd y caiff ei chofnodi. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod i unigolion a gedwir yn y ddalfa am wybodaeth bwysig megis picseleiddio toiledau a swyddogaethau eraill yn y gell. Bydd hefyd yn cynnwys gwiriadau o les unigolion a gedwir yn y ddalfa, gwiriadau o gelloedd, gwiriadau dalfa dyddiol/wythnosol, ac ati. Bydd Gwasanaethau'r Ddalfa yn cyfarfod â Niche, sydd eisoes ag ap gyda'r swyddogaeth hon, i asesu addasrwydd yr ap a sicrhau ei fod yn cwmpasu pob maes gofynnol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd allweddol megis picseleiddio toiledau.*<br><br>*Bydd cyflwyno'r ap hwn nid yn unig yn gwella ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth sy'n cael ei chofnodi, ond bydd y templedi mynediad ar yr ap yn gweithredu fel nodiadau atgoffa i sicrhau bod swyddogion dalfa a* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *thywys yn rhoi gwybod i unigolion a gedwir yn y ddalfa o'r HOLL wybodaeth sydd ei hangen.* |


# Atodiad – Canfyddiadau’r adolygiad o gofnodion dalfa

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel, a ddadansoddwyd i nodi'r agweddau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa, gan ganolbwyntio ar unigolion agored i niwed a gedwir yn y ddalfa. Adran ategol i’r adroddiad yw hon i roi cyd-destun i’r adrannau *Crynodeb o’r canfyddiadau* a *Sylwadau’r panel* uchod.

## Demograffeg






- Yr ethnigrwydd a gofnodwyd ar gyfer yr holl garcharorion yn yr hapsampl hon oedd 15 Gwyn Prydeinig ac 1 Gwyn Gogledd Ewropeaidd.

# Dalfeydd





- Rhoddwyd mwy o ffocws ar sicrhau cynrychiolaeth o bob un o’r pedwar rhanbarth lle cedwir pobl yn y ddalfa o fewn y gweithgaredd craffu hwn.
- O'r 30 achos a baratowyd, cyfrannodd pob rhanbarth chwe chofnod dalfa i'w hadolygu gan y panel.

# Amser cyrraedd y ddalfa





**Yr amser a aeth heibio o rywun yn cyrraedd i gael awdurdod i’w gadw yn y ddalfa**

- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o’r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa i gael awdurdod i’w gadw yn y ddalfa oedd 35 munud.
- Yr amser aros uchaf oedd 3 awr ac 19 munud.
- Yr amser cyflymaf cyn cael awdurdod i gadw unigolyn yn y ddalfa oedd 4 munud.





**Cyfanswm y cyfnod yn y ddalfa**


- Yr amser ar gyfartaledd y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 9 awr. Bu effaith ar hyn gan gloc 12 yr heddlu o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ar gyfer prosesu plant yn y ddalfa.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 25 awr.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 2 awr ac 16 munud.




- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen i'r unigolion dan sylw gael eu harestio. Dim ond os yw'n bodloni gofynion cyfreithiol penodol o dan adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 y mae arestiad yn gyfreithlon.
- Dyma'r rhestr o anghenion o dan y Ddeddf honno:
  - Er mwyn canfod enw neu gyfeiriad rhywun
  - Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
  - Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
  - Er mwyn atal trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus
  - Er mwyn gwarchod plentyn neu unigolyn agored i niwed
  - Os oes rhwystr anghyfreithlon i'r briffordd
  - Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd
  - Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro
- Gall swyddog ddewis mwy nag un anghenraid ar gyfer arestio rhywun.
- Yr anghenraid amlycaf i arestio a nodwyd oedd: *Cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd* ac yna *Atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill.*

# Darpariaethau yn y ddalfa














- Nododd y panel fod bylchau o ran cofnodi anghenion crefyddol, picseleiddio toiledau a botwm galw'r gell.
- Fodd bynnag, barnodd y panel fod yr holl fwyd a lluniaeth yn cael eu cynnig i bob un a gadwyd yn y ddalfa yn rheolaidd.






- Mae *eitem tynnu sylw* yn wrthrych risg isel a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa i helpu i leihau orbryder, aflonyddwch meddwl neu ofid tra byddant yn nalfa'r heddlu. Mae'r eitemau hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion agored i niwed yn y ddalfa, gan gynnwys plant, y rhai ag anghenion iechyd meddwl, neu unigolion sy'n profi symptomau diddyfnu neu gyflyrau emosiynol dwysach. Mae enghreifftiau o eitemau tynnu sylw yn cynnwys:


- Peli straen neu eitemau ffidlan
- Llyfrau lliwio a chreonau/pensiliau
- Deunyddiau darllen (llyfrau, cylchgronau)
- Posau (e.e. chwileiriau)
- Eitemau meddal megis cymhorthion synhwyraidd (pan fo'n briodol)
- Yn fwy diweddar, cyfrifiaduron llechen

- Nododd y panel diffyg asesiad risg ar gyfer pob un o'r pedwar cofnod lle nodwyd bod eitem tynnu sylw wedi cael ei darparu i unigolyn a

## Unigolion benywaidd yn y ddalfa








- Ar sail cofnod y ddalfa, ni allai aelod o’r panel nodi a oedd swyddog benywaidd wedi'i dyrannu.
- Ar gyfer y cofnodion dalfa eraill a adolygwyd:
  - Neilltuwyd swyddog benywaidd
  - Cyflwynodd y swyddog ei hun i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa
  - Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ac eithrio un, oherwydd ei hoedran
  - Cynigiwyd cyfleusterau hylendid i bob fenyw a gadwyd yn y ddalfa

## Hylendid


A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw geisiadau hylendid sy'n cael eu gwneud/eu rhoi, er enghraifft, cawodydd a chyfleusterau golchi dwylo yn cael eu cynnig?





- Ni nododd y panel unrhyw bryderon mewn perthynas â hylendid nac unrhyw ofynion cyffredinol ar gyfer unigolion a gadwyd yn y ddalfa.

# Hawliau a hawlogaethau

A oedd oedi cyn cael hawliau (e.e. i gael oedolyn priodol/dehonglydd yn bresennol) o fwy nag un awr?




A welodd yr unigolyn gyfreithiwr neu a gafodd gyfle i siarad ag un tra bu yn y ddalfa?




- Rhoddwyd hawliau i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, naill ai wrth gofrestru pan wnaethant gyrraedd y ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.


**Pa mor hir, ar ôl awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa, y gwnaeth yr unigolyn yn y ddalfa gais am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 29 munud.
- Mewn 12 o'r 14 cofnod a oedd yn gofyn am gyfreithiwr, gwnaeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa y cais am gyfreithiwr o fewn awr.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 1 awr a 22 munud.


**Yr amser a gymerwyd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr a 28 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd 7 awr a 25 munud.
- Y cyfnod byrraf oedd 5 munud.

Os bu oedi hir cyn gweld cyfreithiwr, a oedd unrhyw sail resymegol ar gael?





A roddwyd cyngor cyfreithiwr wyneb yn wyneb?




**Yr amser a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd o adeg cysylltu ag ef**


- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd 3 awr a 44 munud.
- Canfu un aelod o'r panel fod y cofnod yn aneglur er mwyn gwirio cyfranogiad cyfreithiwr.
- Ar y cyfan, nid oedd gan y panel unrhyw bryderon ynghylch unigolion agored i niwed yn y ddalfa yn cael mynediad i gynrychiolaeth gyfreithiol. Roedd achosion o oedi, ond roedd modd cyfiawnhau'r rhain.




- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull datrys i asesu a gafodd unigolion agored i niwed yn y ddalfa eu cadw yn gymesur â'r angen i'w harestio.
- Roedd 87% o'r dulliau datrys ar gyfer mechnïaeth amodol, sef y broses sy'n caniatáu i swyddogion atodi amodau i fechnïaeth a all gefnogi dioddefwyr a/neu dystion, cadw tystiolaeth, a helpu i leihau troseddau pellach.

# Lefel arsylwi





- Pennwyd lefel arsylwi ar gyfer pob cofnod dalfa a adolygwyd a glynwyd at bob un ohonynt.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
  - Lefel 1 – Cyffredinol (o leiaf unwaith bob awr)
  - Lefel 2 – Ysbeidiol (bob 30 munud)
  - Lefel 3 – Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
  - Lefel 4 – Yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos)

- Cofnododd y panel gadarnhad o 95% bod risgiau i unigolion yn y ddalfa wedi'u hystyried a dim ond mewn un cofnod ni allai aelod y panel ddod o hyd i'r manylion.

- Nododd un aelod o'r panel nad oedd Lefel Arsylwi 2 wedi'i dilyn.
- Nododd aelod arall o'r panel nad oedd yn berthnasol ond nid yw'n glir o'r nodiadau pam dyma oedd yr achos.
- Canfu’r panel dystiolaeth ar y cyfan fod y lefelau arsylwi wedi'u cynyddu a'u lleihau’n dda a bod sail resymegol dda wedi'i darparu.


A lynwyd at hyn?
1
1
Do
Naddo
Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion


# Gwasanaethau cymorth





- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 56% o unigolion yn y ddalfa o'i gymharu â 25% na chafodd gynnig gwasanaethau cymorth ac 19% nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

- Pwysleisiodd aelodau'r panel y gwasanaethau cymorth canlynol i gefnogi unigolion yn y ddalfa:
  1) Gwasanaethau iechyd meddwl
  2) Gofal cymdeithasol
  3) Gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS)
  4) Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed


# Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol





- Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:
  1) Trafodwyd tystiolaeth o anghenion iechyd a lles o flaen oedolyn priodol.
  2) Tystiolaeth o agwedd ofalgar a phroffesiynol gan staff mewn rhai amgylchiadau anodd.
  3) Arferion da sy'n gysylltiedig ag adnabod bod unigolyn yn agored i niwed, hysbysu'r oedolyn priodol, a'r unigolyn yn y ddalfa yn cael ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.
  4) Nodwyd pryderon yn ymwneud ag iechyd meddwl a dibyniaeth ar alcohol a deliwyd â nhw yn unol â hynny trwy gyfryngu ac ymgynghori â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
  5) Mesurau diogelu da ar waith i amddiffyn plant sy'n mynd i'r ddalfa, â'r ffocws ar leihau'r amser maen nhw'n treulio yn y ddalfa.

# Defnyddio grym





- Ym mhob un o'r tri chofnod a adolygwyd, y dacteg a ddefnyddiwyd gan y ddalfa wrth ddefnyddio grym oedd rhoi gefynnau ar yr unigolyn.
- Ym mhob un o'r tri achos, barnodd y panel fod y defnydd yn angenrheidiol ac yn gymesur, a bod y sail resymegol yn ddigonol.
- Ni chafodd yr unigolyn yn y ddalfa na staff unrhyw anafiadau o ganlyniad.
- Nododd y panel y canlynol:
  - Bod y grym a ddefnyddiwyd yn briodol ac yn gywir.
  - Bod gweithdrefnau wedi'u dilyn a'r lefel arsylwi wedi'i haddasu yn unol â hynny.


# Noeth-chwiliad




- Cyngor y panel oedd bod sail resymegol dda yn gysylltiedig â'r ddau noeth-chwiliad a gynhaliwyd.
- Nid oedd oedolyn priodol yn bresennol ar gyfer un o'r noeth-chwiliadau a gynhaliwyd gan mai noeth-chwiliad Davies vs Merseyside ydoedd, sef pan gyfnewidir dillad yr unigolyn yn y ddalfa am ddillad y ddalfa ond nid yw hyn wedi digwydd â'r bwriad o'i chwilio. Rhaid cofnodi hyn fel noeth-chwiliad am resymau egwyddorol.
- Yn y naill achos na'r llall, ni allai'r naill aelod o'r panel nodi a roddwyd gwybod i'r unigolyn yn y ddalfa bod y teledu cylch cyfyng wedi'i orchuddio neu wedi'i ddiffodd yn ystod y chwiliad.





# Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd




- Ym mhob achos, canfu'r panel dystiolaeth bod yr heddlu wedi nodi bod angen oedolyn priodol ac, ym mhob achos, cysylltwyd â'r person / oedolyn priodol enwebedig.
- Yr amser ar gyfartaledd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 46 munud, a'r amser ar gyfartaledd i'r unigolyn yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 1 awr a 26 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 4 awr a 52 munud; mewn cyferbyniad, mewn tri chofnod y gwnaed hyn ar unwaith.
- Nododd y panel y rhesymau canlynol, heblaw am fod yn blentyn, pam roedd gan yr unigolion yn y ddalfa hyn fregusrwydd ychwanegol:
  - Niwroamrywiaeth
  - Camddefnyddio sylweddau
  - Iechyd meddwl / seicosis
  - Meddyginiaeth ar gyfer anaf corfforol nychus
  - Hanes o hunan-niweidio


# Plant yn y ddalfa








- Amheuir, o adolygu'r canlyniadau, fod 'ddim yn berthnasol' wedi'i gyflwyno trwy gamgymeriad ar gyfer y rhestr wirio ar gyfer plant.
- Yr amser cyfan ar gyfartaledd y cadwyd plentyn yn y ddalfa oedd 6 awr ac 17 munud.
- Nid oedd unrhyw achos pan gafodd plentyn ei gadw yn y ddalfa dros nos.
- Nododd y panel fod y broses o fyrhau'r amser y mae plentyn yn ei dreulio yn y ddalfa i bob golwg yn cael effaith gadarnhaol o ran sicrhau diogelwch y plentyn a lleihau'r amser y mae'n cael ei gadw yn y ddalfa.
- Roedd un achos pan na chwblhawyd Eiliadau Cyraeddadwy ar y sail nad oedd gweithwyr ieuenctid ar gael.
- Nid oedd un cofnod yn cynnwys Llais y Plentyn wedi'i gwblhau ar y sail bod y plentyn yn aros i weld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.


A gynhaliwyd adolygaid gan arolygydd o fewn 1–2 awr i'r plentyn ddod i'r ddalfa?





A yw'r trydydd adolygiad arolygydd wedi digwydd (cloc PACE 12 awr ar gyfer plant)?





A gynhaliwyd adolygiad gan y rhingyll (nid rhingyll y ddalfa)?





A gwblhawyd yr adolygiad PACE o fewn 6 awr?




A gafodd y plentyn ei gyhuddo?





A yw cyfweliad gyda munudau hygyrch wedi digwydd?



## Statws Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod dalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu sgoriau cyffredinol o'r cofnod dalfa gan ddefnyddio'r Statws Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o resymau dros y sgoriau | Camau dilynol |
|---|---|
| **Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad, neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cynorthwyo unigolion yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.** | **Dim camau pellach ar hyn o bryd.** |
| **Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r unigolyn yn y ddalfa.** | |
| **Defnyddiwyd dulliau dad-ddwysáu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn yn y ddalfa rhag hunan-niweidio bwriadol.** | |
| **Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.** | **Cyngor/hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.** |
| **Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa gael ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.** | |
| **Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw'r cyfiawnhad yn gymesur.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â'r diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg, a heb unrhyw resymeg arall.** | |
| **Oedi sylweddol wrth i'r unigolion yn y ddalfa weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, neu gael oedolyn priodol yn bresennol.** | |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd yr unigolyn yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a bennwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o’r cofnod dalfa yr aseiniwyd iddynt. Isod mae peth o’r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu sgoriau:

| | | |
|---|---|---|
| *“Roedd bwriad a chynllun clir i wneud i’r unigolyn yn y ddalfa deimlo’n gyfforddus ac roedd ei fam yno drwy’r amser. Cafodd ei arsylwi am 11.30am. Ar wahân i ddefnyddio’r rhestr wirio ar gyfer plant yn benodol, maen nhw wedi dilyn gweithdrefnau gofal a chloc cyflym ar gyfer rhyddhau ar fechnïaeth, ac roedd y fam wedi cymryd rhan yn llawn.”* | *“Mae llawer o wybodaeth yn cael ei chofnodi am ymddygiadau a ddangosir gan yr unigolyn yn y ddalfa ac mae hynny’n dda i’w weld. Yn ymatebol i lefelau'r arsylwi. O bosib oherwydd hynny, mae'n ymddangos bod gwybodaeth ar goll. Felly rwy'n teimlo bod gwybodaeth bwysig ar goll, ac felly rhoddwyd sgôr ‘Melyn’.”* | *“Ni chofnodwyd unrhyw adolygiadau gan arolygwyr. Ni chofnodwyd am sarsiant (heb fod o’r ddalfa).”* |
| *“Oherwydd natur yr arestiad ac oedran yr unigolyn yn y ddalfa. Wedi cael ei drin yn broffesiynol a'i drin â gofal sylweddol.”* | *“Nid oes cofnodion o bicseleiddio ardal y toiled, na chyfeiriad cloch alw’r gell. Nid oes cofnod o amser cyrraedd yr oedolyn priodol.”* | |
| *“Achos anodd a gafodd ei drin yn sensitif, a bu deilliant rhesymol.”* | | |
| *“Defnydd rhagorol o’r rhestr wirio ar gyfer plant yn y ddalfa. Roedd yn glir ac roedd pob agwedd wedi'i chwmpasu.* | | |

| | | |
|---|---|---|
| *Cyfnod byr iawn yn y ddalfa a chafodd yr unigolyn yn y ddalfa gefnogaeth dda."* | | |